# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 29
IONAWR 2011

**Cyfarchion Blwyddyn Newydd i holl aelodau a chyfeillion Bethel a Horeb ar gychwyn 2011.**

Ymhen ychydig fe fyddwn yn tynnu'r trimins i lawr, yn rhoi'r goeden Nadolig heibio am flwyddyn arall ac yn mynd â'r holl gardiau a dderbyniwyd gennym i ryw focs ailgylchu yn y dref. Do, fe ddaeth dathliadau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd i ben unwaith yn rhagor ac o ganlyniad fe fydd pob dim i'w weld yn noeth ac yn ddi-addurn hyd nes inni gyfarwyddo â moelni oer mis Ionawr. Er na fyddai i byth wedi rhoi llawer o addurniadau Nadolig i fyny o gwmpas y tŷ, rhaid imi gyfaddef fy mod yn hoff iawn o dderbyn cardiau Nadolig. O gychwyn mis Rhagfyr, byddaf wrth fy modd yn gweld y postmon yn cyrraedd â llwyth o gardiau gan ffrindiau, cyn-gydweithwyr a theulu nad wyf yn clywed ganddynt ond unwaith y flwyddyn. Bydd rhai ond yn cynnwys cyfarchiad syml ac yn torri eu henwau, ambell un arall yn cynnwys pwt o newyddion ar y garden, tra eraill yn cynnwys llythyr manwl am eu hanes yn ystod y flwyddyn. Ond digon tebyg fydd y cyfarchiad sylfaenol ar bob un o'r cardiau: Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.

Roedd yr apostolion yn dda am gyfarch ei gilydd yn yr eglwys fore ac y mae'r mwyafrif o'r llythyron yn y Testament Newydd yn cychwyn gyda chyfarchiad. Un o hoff gyfarchion yr apostol Paul wrth gychwyn ei lythyron oedd: 'Gras a thangnefedd i chwi oddi wrth Dduw ein Tad, a'r Arglwydd Iesu Grist'. Y mae Jwdas ar gychwyn ei lythyr yn dweud: 'Jwdas, gwas Iesu Grist, a brawd Iago, at y rhai sydd trwy alwad Duw y Tad yn annwyl ganddo ac wedi eu cadw i Iesu Grist. Trugaredd a thangnefedd a chariad a amlhaer i chi'. Mae'r modd y mae'r apostolion yn cyfarch yr eglwysi a'u cyd-Gristnogion yn sicr yn adlewyrchiad o'r cynhesrwydd oedd yn bodoli yng nghymdeithas yr eglwys fore wrth iddynt ymdeimlo â grym yr Ysbryd Glân yn gweithredu yn eu plith. Ond efallai mai un o'r cyfarchion hyfrytaf yw'r cyfarchiad o eiddo yr apostol Ioan yn ei drydydd llythyr. Mae'n cyfarch henuriad o'r enw Gaius, un a oedd yn amlwg yn annwyl iawn yn ei olwg, ac fe ddywed: 'Gyfaill annwyl, yr wyf yn dymuno iechyd iti, a llwyddiant ym mhob peth, fel y mae dy enaid yn llwyddo'. Yn ei gyfarchiad, y mae Ioan yn dymuno ond y pethau gorau i'w gyfaill annwyl. Mae'n dymuno iechyd corfforol iddo, llwyddiant ym mhob dim y mae yn ei wneud, yn ogystal â llwyddiant ysbrydol. Mae'n dymuno'r gorau i'r person yn gyfan, yn gorff, meddwl ac enaid ac yn dangos ehangder ei ofal a'i gonsyrn dros ei gyfaill. A hynny yn union fel yr oedd yr Arglwydd Iesu yn dangos consyrn dros ei bobl ac yn cofio nid yn unig am eu hanghenion ysbrydol ond hefyd am eu hanghenion corfforol. Yr un yw'r Arglwydd Iesu heddiw a'r un yw ei gonsyrn drosom, yn gorff, meddwl ac enaid. Felly ar gychwyn blwyddyn newydd bydded inni ymddiried ein hunain o'r newydd i'w ofal tyner ac wrth ddymuno blwyddyn newydd dda i bawb hoffwn innau, fel Ioan, ddymuno iechyd i bawb ohonoch, llwyddiant ym mhob peth, fel y mae eich eneidiau yn llwyddo.

Pob bendith
Judith
Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com

## CALENDR MIS IONAWR 2011

| **Cyhoeddwr y Mis: Mairwen Jones** | **Organydd y Mis : Mair Evans** | |
|---|---|---|
| 2 Ionawr 2.30 | Oedfa Gymun : Gweinidog | Bwrdd y Cymun: Rhiannon a Carwen |
| 9 Ionawr 10.30 | Oedfa Deuluol: Gweinidog | |
| 16 Ionawr 2.30<br>6.00 | Oedfa Bregeth: Gweinidog<br>Oedfa Unedig yr Wythnos Weddi Dros Undeb Cristnogol yng Nghanolfan San Paul. Pregethir gan y Parchg Ddr John Morgans, Penrhys gynt. | Gofal y Te: I'w drefnu |
| 23 Ionawr 2.30 | Oedfa yng nghwmni Sarah Garnes.<br>**Dalier Sylw: Cynhelir yr oedfa ym Methel am 2.30yp** | |
| 30 Ionawr 10.30 | Oedfa Bregeth: Gweinidog<br>Clwb Sul | |
| efror 2.30 | Oedfa Gymun: Gweinidog | Bwrdd y Cymun: I'w drefnu |

**Ionawr**
10 Ionawr: Cinio Bara Caws Cymorth Cristnogol, Canolfan San Paul: 12.00-1.30yp
12 Ionawr : Cinio Cymunedol Penrhyn-coch, Neuadd yr Eglwys
17 Ionawr: Cyfarfod y Diaconiaid am 7yh.
19 Ionawr: Cymdeithas y Penrhyn: Geraint Evans,Tal-y-bont yn sôn am ei nofelau am 7.30yh
20 Ionawr: Cyfarfod Taith Dewi Sant yn Noddfa, Bow Street am 7yh.
25 Ionawr : Cwrdd Gweddi Festri Horeb am 7.30yh
26 Ionawr: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch, Neuadd yr Eglwys

**LLOFFION**

**Llongyfarchiadau** i Ioan a Ffion ar enedigaeth merch fach, Hedydd Mair, wyres i Sandra a Mansel a gor-wyres i Glenys a Henry.

**Llongyfarchiadau** i Nerys ac Iwan, Garn Wen ar eu dyweddïad.

**Dymuniadau gorau** i

- Mr Vic Bolt
- Mrs Griffiths
- ac Owen Jac

sydd wedi bod yn yr ysbyty.
**Dymuniadau gorau hefyd** i Keith Morris a gafodd ddamwain ym mis Rhagfyr.
**Brysiwch wella bawb!**
**Diolch yn fawr** i Siôn Corn a ddaeth i ymweld â ni eleni eto yn ein hoedfa Nadolig.